O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 722 (Cy. 193)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Man i'r Gogledd a Man i'r De o Gylchfan Plas Menai, Y Felinheli a Man i'r Gogledd a Man i'r De o Gylchfan y Faenol, Bangor, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Gorffennaf 2016* |
| *Yn dod i rym* | *8 Gorffennaf 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) ("cefnffordd yr A487"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 82(2), 83(1) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) ("Deddf 1984") a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Gorffennaf 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Man i'r Gogledd a Man i'r De o Gylchfan Plas Menai, Y Felinheli a Man i'r Gogledd a Man i'r De o Gylchfan y Faenol, Bangor, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 2016.

**Dileu Cyfyngiadau**

**2.** Bydd y darnau o gefnffordd yr A487 a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig ar ddibenion adran 81 o Ddeddf 1984.

**Dirymiadau**

**3.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Ffordd Osgoi'r Felinheli, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1994(**2**) a Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Llanfair-

is-gaer, Gwynedd) (Dileu Cyfyngiadau) 1987 drwy hyn wedi eu dirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 6 Gorffennaf 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22), a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S.1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(2)** O.S. 1994/794.

## YR ATODLEN

1. Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 1,007 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Plas Menai, y Felinheli hyd at bwynt 245 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gylchfan honno.

2. Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 256 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt Cylchfan y Faenol, Bangor hyd at bwynt 99 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gylchfan honno.